# Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD GWENER, 1 EBRILL 2016**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI** A GYNHELIR YN **YSTAFELL PWYLLGOR 2 - 3 HEOL SPILMAN** AM **9.00 AM, DYDD LLUN, 11EG EBRILL, 2016** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Mr Kevin Thomas** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **Ffacs:** | **(01267) 224911** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# A G E N D A

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 29AIN CHWEFROR, 2016 — 3 - 4

3. ADRODDIAD NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

   WEDI YSTYRIED HOLL AMGYLCHIADAU'R ACHOS AC WEDI CYNNAL PRAWF BUDD Y CYHOEDD GALL YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL FARNU NAD YW'R EITEMAU GANLYNOL I'W CHYHOEDDI AM EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINNIR YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, FEL Y'I NEWIDIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007.

4. PRYNU FFLAT BRYDLESOL A WERTHWYD O DAN HAWL I BRYNU — 5 - 18

**CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS TAI**

**DYDD** Llun, 29 Chwefror 2016

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd** L.D. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L James, Rheolwr y Gwasanaethau Tai

**Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.30 am**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. DERBYN COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 3YDD MEDI 2015**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 3ydd Medi, 2015 yn gofnod cywir.**

**3. PENNU RHENTI AR GYFER SAFLE SIPSIWN/TEITHWYR PEN-Y-BRYN 2016/17**

Rhoddwyd gwybod i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn ofynnol i holl Awdurdodau Lleol Cymru gydymffurfio â'r polisi rhenti tai cymdeithasol mewn perthynas â'u lefelau rhent arfaethedig ar gyfer tai cyngor yn 2016/17 a oedd, yn achos Sir Gaerfyrddin, yn cyfateb i gynnydd wythnosol cyffredinol o 2.97% (gan gynnwys £2.00 o gynnydd).

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Tai er nad oedd Safle Teithwyr Pen-y-bryn yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai, ac er nad oedd y rhenti'n cael eu rheoli gan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru, bernid ei bod yn deg ac yn gyfiawn bod y rhenti'n cynyddu'r un faint â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 1.5%. Yn achos 2016/17 yr oedd hyn yn cyfateb i 1.4%. Felly yr argymhelliad oedd bod rhenti wythnosol Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn £50.39 (heb gynnwys taliadau gwasanaeth a threthi dŵr).

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol am y cyngor cyfreithiol a gawsid ynghylch pennu ffioedd lleiniau parhaol ar Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr Awdurdodau Lleol, a nododd y cyngor hwnnw.

**PENDERFYNWYD**

**3.1 pennu rhent o £50.39 ar gyfer y lleiniau ar Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn 2016/17;**

**3.2 gweithredu'r polisi tâl gwasanaeth er mwyn sicrhau bod tenantiaid y safle yn talu am y gwasanaethau ychwanegol hynny;**

**3.3 pennu tâl o £11.25 am ddarparu dŵr.**

______________________________ ______________________

**CHAIR** **DATE**



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

Yn rhinwedd paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae’r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd  paragraff(s) 14 o Rhan 4 o Atodlen 12A% o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol